

Rhif: WG34935



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Llywodraeth Cymru
Dogfen Ymgynghori

Canllawiau ar Fyw Gyda Phoen Parhaus yng Nghymru

Dyddiad cyhoeddi: 5 Mehefin 2018
Camau i'w cymryd: Ymatebion erbyn 14 Medi 2018

Trosolwg Rydym wrthi'n datblygu canllaw i ddisodli Cyfarwydddebau Datblygu a Chomisiynu Llywodraeth Cymru ar gyfer Poen Anfalaen Cronig, a gyhoeddwyd fis Mehefin 2008.

Mae'r ymgynghoriad hwn yn ceisio eich barn am gyfeiriad arfaethedig y canllawiau drafft.

Sut i ymateb Bydd yr ymgynghoriad hwn yn cau ar 14 Medi 2018. Gallwch ymateb drwy anfon e-bost neu lythyr.

E-bost

Cwblhewch y ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad a'i hanfon at:

MajorHealthConditionsPolicyTeam@llyw.cymru

Post

Cwblhewch y ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad a'i hanfon at:

Afiechydon Difrifol
Y Gyfarwyddiaeth Gofal Iechyd Poblogaethau
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig

Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille neu mewn ieithoedd eraill.

Manylion Cysylltu Os hoffech ragor o wybodaeth:

Cyfeiriad: Y Gyfarwyddiaeth Gofal Iechyd
Poblogaethau
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

e-bost: MajorHealthConditionsPolicyTeam@llyw.cymru

Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol

Llywodraeth Cymru fydd y rheolydd data ar gyfer unrhyw ddata personol a ddarperir gennych wrth ichi ymateb i'r ymgynghoriad. Mae gan Weinidogion Cymru bwerau statudol y byddant yn dibynnu arnynt i brosesu'r data personol hyn a fydd yn eu galluogi i wneud penderfyniadau cytbwys ynghylch sut y maent yn cyflawni eu swyddogaethau cyhoeddus. Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymwneud â nhw neu sy'n cynllunio ymgynghoriadau ar gyfer y dyfodol.

Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu'r sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhowch wybod inni yn ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb. Byddwn wedyn yn cuddio'ch manylion.

Mae'n bosibl y bydd yr enwau a'r cyfeiriadau y byddwn wedi'u cuddio yn cael eu cyhoeddi'n ddiweddarach, er nad yw hynny'n debygol o ddigwydd yn aml iawn. Mae Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 yn caniatáu i'r cyhoedd gael gweld gwybodaeth a gedwir gan lawer o gyrff cyhoeddus, gan gynnwys Llywodraeth Cymru. Mae hynny'n cynnwys gwybodaeth sydd heb ei chyhoeddi. Fodd bynnag, mae'r gyfraith hefyd yn caniatáu inni gadw gwybodaeth yn ôl o dan rai amgylchiadau. Os bydd unrhyw un yn gofyn am gael gweld gwybodaeth a gadwyd yn ôl gennym, bydd rhaid inni benderfynu a ydym am ei rhyddhau ai peidio.

Os bydd rhywun wedi gofyn inni beidio â chyhoeddi ei enw a'i gyfeiriad, bydd hynny'n ffaith bwysig inni ei chadw mewn cof. Fodd bynnag, fe allai fod rheswm pwysig dros orfod datgelu enw a chyfeiriad unigolyn, er ei fod wedi gofyn inni beidio â'u cyhoeddi. Byddem yn cysylltu â'r unigolyn ac yn gofyn ei farn cyn gwneud unrhyw benderfyniad terfynol i ddatgelu'r wybodaeth.

Ni chaiff eich data eu cadw am fwy na thair blynedd. O dan y ddeddfwriaeth diogelu data, mae gennych yr hawl:

- i gael gweld y data personol y mae Llywodraeth Cymru yn eu cadw amdanoch;
- i'w gwneud yn ofynnol inni gywiro gwallau yn y data hynny;
- (o dan rai amgylchiadau) i wrthwynebu neu gyfyngu ar brosesu'r data;
- (o dan rai amgylchiadau) i'ch data gael eu 'dileu';
- i gyflwyno cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (SCG), ein rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer diogelu data.

Dyma fanylion cyswllt Swyddfa'r
Comisiynydd Gwybodaeth:
Wycliffe House
Water Lane, Wilmslow
Cheshire, SK9 5AF
Ffôn: 01625 545 745 or
0303 123 1113
Website: www.ico.gov.uk

I gael rhagor o fanylion am yr wybodaeth y mae Llywodraeth Cymru yn ei chadw ac am y defnydd a wneir ohoni, neu os ydych am arfer eich hawliau o dan y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol, gweler y manylion cyswllt isod
Y Swyddog Diogelu Data:
Llywodraeth Cymru, Parc Cathays
CAERDYDD, CF10 3NQ
Cyfeiriad e-bost:
DataProtectionOfficer@llyw.cymru

Beth yw'r prif faterion?

Rydym yn disodli Cyfarwyddbau Datblygu a Chomisiynu Llywodraeth Cymru ar gyfer Poen Anfalaen Cronig, a gyhoeddwyd fis Mehefin 2008.

Drwy weithio gyda phartneriaid clinigol ac academiaidd, rydym yn disodli'r cyfarwyddbau hyn gan ddefnyddio dull cydgynhyrchu. Mae'r canllawiau newydd yn cynnwys ffyrdd effeithiol o weithio yn y dyfodol ar gyfer gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol, yn ogystal â phobl sy'n byw gyda phoen parhaus.

Ein nod yw symud tuag at ganolbwyntio mwy ar gymorth i helpu pobl i ddatblygu sgiliau i'w galluogi i reoli poen parhaol drostynt eu hunain, pryd bynnag a lle bynnag y mae angen iddynt, a thrwy wneud hynny, cynyddu eu gallu i aros mewn gwaith a byw y bywydau y maent yn dymuno eu byw.

Lle rydym yn awr?

Yn 2008, cyhoeddwyd Cyfarwyddbau Datblygu a Chomisiynu ar gyfer Poen Anfalaen Cronig gan Lywodraeth Cymru i gefnogi'r gwaith o asesu a rheoli'r rhai sy'n byw gyda phoen parhaus neu'n ei profi yng Nghymru.

Mae'r ddogfen yn ceisio cynorthwyo byrddau iechyd a gweithwyr iechyd proffesiynol, yn ogystal â'r cyhoedd yn gyffredinol, i helpu i gynyddu ymwybyddiaeth o ran y dulliau gwahanol y gall pobl eu defnyddio i reoli a thrin eu poen.

Y dystiolaeth dros newid

Gan fod dulliau newydd wedi cael eu mabwysiadu o ran gofal iechyd yng Nghymru, sef strategaeth a elwir yn Ofal Darbodus, mae angen i ni adolygu'r ddarpariaeth gwasanaeth a chyflwyno canllawiau newydd.

Ffurflen Ymateb

i'r

Ymgynghoriad

Eich enw:

Sefydliad (lle bo'n berthnasol):

e-bost / rhif ffôn:

Eich cyfeiriad:

Byw gyda phoen parhaus

Rydym am dynnu sylw at y realiti i bobl sy'n profi ac yn byw gyda phoen parhaus. Rydym hefyd am ystyried y ffordd orau y gallai gwasanaethau gael eu trefnu er mwyn mynd i'r afael ag amrywiaeth o anghenion: o'r rhai sydd am gael strategaethau syml gan gynnwys hunanreoli, i'r rhai sydd ag anghenion cymhleth sydd angen gofal arbenigol.

I'r perwyl hwn, rydym wedi cynnwys nifer o gwestiynau i'w hystyried mewn perthynas â chynnwys y ddogfen:

Byw gyda phoen parhaus

1. Sut y gellir datblygu gwasanaethau ymhellach i fod yn fwy effeithiol?
2. Beth yw'r meysydd allweddol y mae angen i weithwyr iechyd a gofal cymdeithasol fod yn ymwybodol ohonynt er mwyn trin a rheoli poen parhaus yn effeithiol?

Gofal yn seiliedig ar dystiolaeth

3. A oes unrhyw ymchwil neu dystiolaeth newydd na chafodd ei chynnwys yn y ddogfen yr ydych yn ymwybodol ohoni a dylid ei hystyried er mwyn galluogi pobl yn well i fyw gyda phoen parhaus?

Y ffordd ymlaen

4. Pa gymorth pellach fyddai'n helpu cleifion a'u hanghenion?
5. Beth yw'r ffyrdd mwyaf effeithiol a hygyrch o helpu pobl gyda phoen parhaus i ddod o hyd i wybodaeth, cymorth a chynngor?

Hunanreoli wedi'i gefnogi

6. Beth yw'r technegau hunanreoli mwyaf effeithiol a hygyrch?

Darpariaeth iechyd a gofal cymdeithasol

7. A yw'r canllawiau'n nodi holl elfennau perthynas therapiwtig dda a sut olwg ddylai fod ar gymorth effeithiol? Beth arall y gellir ei argymhell?
8. Sut y gall byrddau iechyd lleol, awdurdodau lleol a sefydliadau'r trydydd sector gynorthwyo pobl â phoen parhaus i fyw yn y ffordd orau posibl?

Cwestiynau ychwanegol

9. A oes unrhyw dermau neu frawddegau yn y ddogfen yr ydych o'r farn y byddent yn elwa ar ragor o esboniad mewn rhestr termau?

10. Hoffwn wybod eich safbwyntiau o ran yr effeithiau y byddai canllawiau ynghylch rheoli poen parhaus yn eu cael ar y Gymraeg, yn arbennig o ran:

- i) cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a
- ii) pheidio â thrin yr iaith yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Beth fyddai'r effeithiau yn eich barn chi? Sut fyddai modd cynyddu'r effeithiau cadarnhaol, neu leihau'r effeithiau negyddol?

11. Esboniwch hefyd sut yr ydych yn credu y gellir llunio neu newid y polisi arfaethedig i gynnwys:

- i) effeithiau cadarnhaol neu gynnydd o ran yr effeithiau cadarnhaol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, ac
- ii) osgoi effeithiau andwyol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

12. Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi mynd i'r afael â nhw yn benodol, defnyddiwch y gofod hwn i'w nodi:

Nodwch yma:

Mae ymatebion i ymgynghoriadau yn debygol o gael eu gwneud yn gyhoeddus, ar y rhynggrwyd neu mewn adroddiad. Ticiwch yma os byddai'n well gennych i'ch ymateb fod yn ddiennw: